# Plant statws cyfyngedig a charcharorion mewn sefydliadau menywod

## Adolygiad thematig gan Brif Arolygydd Carchardai EF

Mai 2023

# Cynnwys


Cyflwyniad ........ 3

Pryderon ........ 5

Section 1 Adran 1 Cefndir statws cyfyngedig ........ 6

Section 2 Adran 2 Defnyddio'r polisi statws cyfyngedig ........ 7

Section 3 Adran 3 Amddiffyn y cyhoedd rhag niwed ........ 9

Section 4 Adran 4 Mynediad at wasanaethau a chymorth ........ 14

Section 5 Adran 5 Lleihau risg a phontio ........ 22

Section 6 Adran 6 Adolygiadau o statws cyfyngedig ........ 25

Atodiad I Methodoleg thematig ........ 27

Atodiad II Geirfa ........ 28

Atodiad III Troseddau statws cyfyngedig ........ 30

# Cyflwyniad

Mae'r rhan fwyaf o garcharorion yng Nghymru a Lloegr yn ddynion sy'n oedolion sy'n cael eu cadw mewn carchardai, wedi'u dynodi yn ôl gwahanol gategorïau diogelwch: A, B ac C mewn safleoedd caeedig, a charcharorion categori D mewn carchardai agored (gweler diffiniadau Atodiad II). Cyfrifoldeb nifer fach o garchardai sydd wedi'u hadeiladu i fanyleb diogelwch uwch yw dyrannu a rheoli dynion yn y carchardai diogelwch uchaf (categori A), sy'n golygu ei bod yn llawer anoddach dianc.

Ym mis Mawrth 2023, roedd menywod a phlant yn cyfrif am lai na 5% o boblogaeth carchardai. Roedd y niferoedd bach yn golygu bod menywod yn cael eu cadw mewn dau gategori o garchar: caeedig ac agored. Gan nad oes yr un o'r sefydliadau sy'n dal plant a menywod yn cael eu hadeiladu yn unol â manyleb diogelwch uchel, mae mesurau ychwanegol – o dan y pennawd 'statws cyfyngedig' – yn cael eu gosod i leihau'r posibilrwydd o ddianc ac amddiffyn y cyhoedd rhag niwed.

Roedd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) wedi ffurfioli'r system statws cyfyngedig i fenywod a phlant am y tro cyntaf yn 2010, ac er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, mae'r system yn seiliedig ar fodel categori A a ddefnyddir ar gyfer dynion. Credwn nad yw'n adlewyrchu'r gwahanol alluoedd, cymhelliant ac adnoddau ar gyfer potensial menywod a phlant i ddianc, heb sôn am yr amgylcheddau a'r cyfleusterau gwahanol iawn ble maent yn cael eu dal.

Canfu ein hadolygiad thematig wendidau yn yr asesiad o risgiau penodol mewn perthynas â menywod a phlant cyn penderfynu defnyddio mesurau diogelwch ychwanegol helaeth.

Cafodd gwaith goruchwylio carcharorion â statws cyfyngedig, gan gynnwys penderfyniadau i gael gwared ar gyfyngiadau ychwanegol, ei wneud gan y cyfarwyddwr grŵp tymor hir a charchardai diogelwch uchel drwy fwrdd adolygu categori A, a oedd hefyd yn rheoli carcharorion gwrywaidd categori A. Fodd bynnag, nid oedd aelodaeth y bwrdd yn cynnwys arweinwyr o'r gwasanaeth ieuenctid yn y ddalfa (YCS) nac ystâd y merched, a fyddai wedi ychwanegu arbenigedd a gwybodaeth arbenigol ac wedi helpu i ddarparu system fwy effeithiol, wedi'i theilwra i'r risgiau penodol a berir gan fenywod a phlant.

Roedd rhai plant wedi byw mewn lleoliadau diogelwch is o'r blaen – gan gynnwys canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi diogel i blant – lle nad oedd ganddynt unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol, er eu bod wedi bodloni'r meini prawf statws cyfyngedig. Pan wnaethant symud i leoliadau mwy diogel, roeddent yn wynebu llawer mwy o gyfyngiadau, er gwaethaf y lefelau uchel o oruchwyliaeth mewn YOI plant. Nid oedd cyfiawnhad dros anghysonderau o'r fath.

Efallai mai'r prif ganlyniad i ddal unigolion dan statws cyfyngedig yw bod llawer yn ei chael yn anodd cael gafael ar ymyriadau pwysig i'w helpu i symud ymlaen – fel addysg a gwaith ymddygiad troseddol – a oedd yn hanfodol i leihau eu risgiau. Yr eironi oedd nad oeddent yn cael mynediad o'r fath am eu bod yn cael

eu hystyried yn rhy beryglus. Roedd cyfleusterau o'r fath weithiau y tu hwnt i'w cyrraedd neu nid oedd digon o staff i'w hebrwng yno. Roedd llawer o'r plant a'r menywod y buom yn siarad â hwy yn gwybod pam yr oedd statws cyfyngedig wedi'i gymhwyso iddynt ond nid oeddent yn siŵr sut yr oeddent i fod i ddangos gostyngiad mewn risg.

Mewn rhai carchardai, addaswyd y defnydd o fesurau diogelwch ychwanegol yn synhwyrol i gwrdd â'r risg benodol a berid gan yr unigolyn. Dylai hyn fod yn sylfaen i ddull gweithredu newydd, mwy cyson a haws ei amddiffyn, lle mae penderfyniadau a wneir gan dîm categori A yn cael eu llywio gan gynrychiolwyr o ystâd y merched ac YCS sy'n gallu helpu i deilwra mesurau ychwanegol i reoli'r risgiau y mae menywod a phlant yn eu hachosi. Dylai'r system gael adnoddau priodol i wneud yn siŵr bod y rheini sy'n wynebu cyfyngiadau yn gallu cael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys ymyriadau ym maes addysg ac ymddygiad troseddol.

**Charlie Taylor**
**Prif Arolygydd Carchardai EF**
Mawrth 2023

# Pryderon

Yn ystod yr adolygiad hwn, gwnaethom nodi pedwar pryder blaenoriaethol. Pryderon blaenoriaethol yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

Dylai arweinwyr sicrhau bod yr holl bryderon a nodir yma yn cael sylw a bod cynnydd yn cael ei olrhain drwy gynllun sy'n nodi sut a phryd y bydd y pryderon yn cael eu datrys. Dylid darparu'r cynllun i Arolygiaeth Carchardai EF.

1. **Nid oedd y polisi presennol yn ystyried y gwahanol risgiau a berid gan fenywod a phlant na'r sefydliadau penodol lle cawsant eu cadw, gan gynnwys lefelau staffio a diogelwch ffisegol y carchardai hyn.** Roedd hyn wedi arwain at rai arweinwyr yn gwneud penderfyniadau y tu allan i'r polisi.

2. **Roedd plant a charcharorion mewn sefydliadau menywod yn aml yn methu dangos cynnydd gan nad oedd llawer yn gallu cael gafael ar ymyriadau adsefydlu, addysg a gweithgareddau adeiladol eraill oherwydd eu statws cyfyngedig.**

3. **Nid oedd aelodaeth panel categori A a oedd yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch cymhwyso neu ddileu statws cyfyngedig yn cynnwys arweinwyr o ystâd y merched na'r gwasanaeth ieuenctid yn y ddalfa fel arbenigwyr yn y meysydd hyn.**

4. **Roedd trosglwyddiadau plant RS i'r ystâd carchardai oedolion yn cael eu rheoli'n wael ac nid aseswyd nac ymatebwyd i'w risgiau mewn cartrefi diogel i blant neu ganolfannau hyfforddi.**

# Section 1 Adran 1 Cefndir statws cyfyngedig

1.1 Cyflwynwyd statws cyfyngedig (RS) mewn carchardai i blant a menywod tua 2010. Roedd y polisi'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut i reoli carcharorion y byddent yn peri risg o niwed difrifol i'r cyhoedd petaent yn dianc.

1.2 Mae dynion yn cael eu rhannu'n bedwar categori diogelwch: A, B, C a D, gydag A y categori diogelwch uchaf a D y categori diogelwch isaf, a fwriedir ar gyfer carcharorion sy'n addas ar gyfer amodau agored yn unig (gweler yr Eirfa). Dim ond mewn carchardai agored neu gaeedig y gellir dal menywod a dim ond dan RS mewn sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI) y gellir cadw plant. Nid oes unrhyw sefydliadau diogelwch uchel ar gyfer menywod na phlant ac felly mae angen rhai mesurau ychwanegol i atal pobl rhag dianc.

1.3 Yn ystod yr adolygiad hwn, roedd plant RS yn cael eu dal mewn dau safle YOI: HMYOI Wetherby a HMYOI Feltham A. Gellid dal menywod mewn tri charchar i fenywod: HMP/YOI Low Newton, HMP/YOI New Hall, a HMP & YOI Bronzefield.

# Section 2 Adran 2 Defnyddio'r polisi statws cyfyngedig

2.1 Cafodd y meini prawf ar gyfer RS eu cymhwyso’n drylwyr, a oedd yn golygu nad oedd yn cael ei ddefnyddio’n helaeth. Adeg ein gwaith maes, dim ond naw o blant o gyfanswm poblogaeth o 434 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Medi 2022) a 18 o garcharorion o 3,219 a oedd yn cael eu cadw yn ystâd y menywod a gafodd eu dynodi’n RS (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gorffennaf 2022). Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, cyfeiriwyd cyfanswm o 115 o fenywod at dîm categori A i’w hystyried, ac o’r rhain, dosbarthwyd 12 fel RS. Yn y 12 mis cyn ein gwaith maes yn ystâd y plant, roedd 50 o atgyfeiriadau, gyda 12 wedi’u dynodi’n rhai oedd angen RS.

2.2 Mae’r polisi RS diweddaraf o 2015 (gweler Atodiad III) yn cynnwys nifer o gyfarwyddiadau rheoli a mesurau diogelwch y disgwylir i sefydliadau sy’n dal carcharorion RS eu dilyn. Ei nod yw atal niwed i’r cyhoedd drwy roi mesurau diogelwch ychwanegol ar waith i atal carcharorion risg uchel rhag dianc. Rydym yn cefnogi’r nod hwn ond rydym wedi nodi sawl diffyg gyda’r dull gweithredu presennol.

2.3 Roeddem yn bryderus nad oedd asesiad risg manwl i benderfynu a oedd gan blentyn neu fenyw unigol y cymhelliant, y gallu neu’r adnoddau i ddianc cyn penderfynu defnyddio statws cyfyngedig a’r mesurau diogelwch ychwanegol a oedd yn gysylltiedig ag ef. Ar ben hynny, roedd y rhan fwyaf o garcharorion RS yn wynebu’r un mesurau er eu bod yn cyflwyno risgiau gwahanol. Nid oedd system i gymhwyso gwahanol lefelau o gyfyngiadau i ystyried y gwahaniaethau hyn, gan ganiatáu i’r rheini a oedd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau symud ymlaen heb roi’r cyhoedd mewn perygl.

2.4 Roedd rhai llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr carchar yn teimlo’n rhwystredig oherwydd y diffyg hyblygrwydd wrth weithredu’r cyfyngiadau a nodir yn y polisi presennol ac roeddent wedi cymryd camau i fod yn fwy ymatebol wrth reoli carcharorion a phlant RS. Roedd hyn yn cynnwys teilwra rhai o’r cyfyngiadau ychwanegol mewn ymateb i risgiau ac amgylchiadau unigol a oedd yn galluogi carcharorion i gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy adeiladol. Roedd y dull gweithredu wedi bod yn llwyddiannus ac yn dangos ei bod yn bosibl addasu cyfyngiadau i’r risgiau a oedd yn codi, er ei bod yn destun pryder nad oedd hyn yn rhan o fframwaith polisi cenedlaethol gyda’r mesurau diogelu cysylltiedig ar gyfer y cyhoedd.

2.5 Dim ond mewn sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI) a charchardai oedolion y mae’r polisi RS yn berthnasol. Mae hyn yn golygu nad yw plant sy’n bodloni meini prawf RS ond sy’n cael eu lleoli mewn sefydliadau diogelwch is, gan gynnwys canolfannau hyfforddi diogel (STC) neu gartrefi diogel i blant (SCH), yn cael unrhyw asesiad ac nad oes unrhyw fesurau ychwanegol wedi’u gosod arnynt. Pan drosglwyddwyd y plant hyn i Sefydliad Troseddwyr Ifanc neu i’r ystâd

oedolion yn 18 oed, gwelsom fod y newid yn y trefniadau diogelwch yn amlwg. Roedd un plentyn wedi bod yn cael ymweliadau rheolaidd a galwadau ffôn gyda'i deulu tra'n byw mewn STC, a gymeradwywyd gan y tîm troseddau ieuenctid a gweithwyr cymdeithasol. Pan gafodd ei symud yn sydyn i Sefydliad Troseddwyr Ifanc i blant, cafodd ei ymweliadau cymdeithasol eu canslo, a tharfwyd ar ei addysg wrth i asesiad RS ddechrau. Mae hyn yn amlwg yn sefyllfa annerbyniol, sy'n golygu nad yw'r risgiau'n cael eu rheoli tra'n gosod cyfyngiadau anghymesur mewn meysydd eraill.

2.6 Nid oedd y polisi RS yn rhoi cyfrif am y gwahaniaethau yn y model o garchardai i blant, fel cymhareb staff i blant llawer uwch o tua 1:6–1:8 mewn sefydliadau troseddwyr ifanc (YOI), o'i gymharu â'r gymhareb staff i garcharorion mewn sefydliad categori A, sydd tua 1:12. Roedd hyn yn golygu bod staff mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn cael gwell goruchwyliaeth o blant yn ystod gweithgareddau dyddiol, ac roedd arweinwyr lleol yn teimlo y gallai hynny fod wedi darparu mesurau lliniaru yn erbyn y gofyniad am rai mesurau diogelwch ychwanegol.

# Section 3 Adran 3 Amddiffyn y cyhoedd rhag niwed

3.1 Yn briodol, cyfeiriodd carchardai newydd-ddyfodiaid a oedd yn bodloni meini prawf yr RS (gweler Atodiad III) at dîm categori canolog A, a ddefnyddiodd wybodaeth am euogfarnau blaenorol ac adroddiad gan yr heddlu (MG5), a oedd yn amlinellu manylion y trosedd, i benderfynu a ddylai plentyn neu fenyw fod yn destun RS. Gwnaed y penderfyniadau cychwynnol hyn yn brydlon ac fel arfer roeddent yn seiliedig ar y risg i'r cyhoedd pe baent yn dianc, difrifoldeb y trosedd, ac a oedd y dioddefwr/dioddefwyr yn hysbys i'r sawl a gyflawnodd y trosedd.

3.2 Roedd y rhan fwyaf o'r mesurau ychwanegol a nodir yn y polisi RS wedi cael eu mabwysiadu o ystâd y dynion ac yn cynnwys:

- chwilio'r plentyn neu'r fenyw a'u cell bob mis
- symud celloedd bob mis (o un gell ddynodedig RS i un arall)
- trefniadau hebrwng gwahanol, gan gynnwys defnyddio 'llyfr melyn' i gofnodi symudiadau o amgylch y safle
- cyfyngiadau ar fynediad i rai lleoliadau a gweithgareddau yn y carchar
- monitro cyfathrebu.

## Chwilio arferol

3.3 Mae chwilio yn agwedd sylfaenol ar ddiogelwch carchardai, ond dylai fod yn seiliedig ar asesiad risg. Os oes gwybodaeth i awgrymu bod gan garcharor eitemau anghyfreithlon, neu pan fydd carcharorion yn gadael y sefydliad neu'n symud o gwmpas gwahanol rannau o'r carchar, mae chwilio'n hanfodol. Fodd bynnag, mae'r polisi RS yn gofyn am ddiosg-chwilio a chwilio celloedd bob 28 diwrnod, ni waeth a oes unrhyw wybodaeth i awgrymu eu bod yn angenrheidiol. Canfuom mai dim ond mewn un o'r 21 achos a adolygwyd gennym y gellid cyfiawnhau'r chwiliad rheolaidd a chyson hwn.

3.4 I'r rhan fwyaf o blant, ychydig iawn o ganfyddiadau a gafwyd o unrhyw arwyddocâd. Yn seiliedig ar ddata o safleoedd plant RS, dim ond 5% o'r chwiliadau cell (dau allan o 37) a dim ond 4% o ddiosg-chwiliadau oedd wedi arwain at ganfyddiadau, ac nid oedd yr un o'r eitemau a ganfuwyd yn awgrymu risg uwch o ddianc. Nid oedd yr arfer o ddiosg-chwilio arferol yn seiliedig ar wybodaeth nac asesiad o risgiau'r plentyn. Mewn un achos dywedodd plentyn wrthym ei fod yn cael ei ddiosg-chwilio bedair gwaith y dydd wrth deithio o'r carchar i'r llys ac yn ôl.

3.5 Yn ein cyfweliadau, er bod y rhan fwyaf o blant yn dweud eu bod yn deall bod angen cynnal chwiliadau pan oeddent yn gadael y carchar i fynd i'r llys, roeddent yn teimlo bod achlysuron eraill, fel chwilio rheolaidd a chwilio eu cell, yn peri gofid.

3.6 Mewn carchardai i fenywod, dim ond 8% o chwiliadau rheolaidd RS a gynhaliwyd yn ystod y pum mis cyn ein hadolygiad a arweiniodd at unrhyw ganfyddiadau, ac nid oedd yr eitemau a ganfuwyd, fel bagiau siopa a minwyr penseli, yn ymwneud â risg o ddianc neu fygythiadau cynyddol o niwed i eraill. Roedd diffyg sganwyr corff mewn sefydliadau ar gyfer menywod a phlant yn golygu bod diosg-chwilio yn arfer rheolaidd wrth geisio canfod eitemau sy'n cael eu cuddio ar y corff.

## Symud celloedd yn rheolaidd

3.7 Mae carcharorion RS mewn sefydliadau menywod a phlant yn cael eu cadw mewn celloedd penodol, sy'n bodloni'r safonau diogelwch ffisegol sy'n ofynnol ar gyfer carcharorion categori A. Mae'r rhai sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau menywod wedi'u lleoli mewn llety i fyny'r grisiau yn unig, mewn celloedd oddi wrth waliau allanol a diwedd pen y grisiau, er mwyn atal dianc. Yn ogystal â'r mesurau diogelwch ffisegol hyn, mae'r polisi RS hefyd yn cyfarwyddo sefydliadau i symud menywod a phlant i wahanol gelloedd bob mis. Mae hyn yn wahanol i brofiad carcharor â dedfryd safonol mewn safle categori A i ddynion, lle mai dim ond unwaith bob tair blynedd y disgwylir symud celloedd.

3.8 Yn ein cyfweliadau, dywedodd y plant wrthym fod symud celloedd bob mis yn ei gwneud yn anodd iddynt deimlo'n sefydlog a bod carcharorion mewn sefydliadau menywod wedi teimlo effaith debyg, gydag un yn disgrifio symud celloedd yn rheolaidd fel:

> '... y peth gwaethaf y gallwch ei wneud i garcharor dan ddedfryd hir neu ddedfryd oes.'

Dywedodd un arall:

> 'Mae [symud celloedd] yn ansefydlogi... mae'n rhaid i chi gymryd eich holl bethau, mae'n flinedig – mae'n flinedig yn feddyliol – rydych chi eisiau i mi setlo mewn lle rydw i'n teimlo'n ddiogel... ond dydych chi ddim eisiau i mi deimlo'n sefydlog oherwydd rydych chi'n fy symud bob tri mis... beth ydych chi'n meddwl rydyn ni'n mynd i'w wneud... tyllu twll yn y wal gyda llwy blastig?'

3.9 Roedd rhai o'r rheolwyr lleol wedi cydnabod pa mor aflonyddgar oedd symud celloedd yn rheolaidd ac wedi rhoi'r gorau i'w gwneud. Er bod hwn yn ddull gweithredu synhwyrol ac wedi cael ei gymeradwyo gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, nid oedd y polisi cenedlaethol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hynny.

## Trefniadau hebrwng

3.10 Roedd trefniadau anghyson ar waith i staff hebrwng plant RS wrth symud i wahanol rannau o'r carchar, er enghraifft o'u huned i addysg neu waith. Nid oedd trefniadau o'r fath yn seiliedig ar asesiad risg o risg

nac ymddygiad y plentyn. Roedd plant RS bob amser yn cael eu hebrwng gan o leiaf ddau swyddog gyda chamera ar y radio ar y corff. Unwaith eto, nid oedd y mesur hwn yn rhoi cyfrif am y gymhareb llawer uwch rhwng staff a phlant yn ystâd y plant, ac awgrymodd arweinwyr lleol y gallai hyn fod wedi lliniaru'r angen am hebrwng gan staff yn unigol.

3.11 Roedd y trefniadau a oedd ar waith i reoli symudiadau carcharorion RS hefyd yn amrywio ar draws safleoedd y menywod; mewn un carchar roedd merched RS yn cael eu hebrwng gan staff un-i-un, ond mewn un arall, gallai dau garcharor RS symud gydag un aelod o staff. Nid oedd yn glir pam roedd gwahaniaethau o ran ymarfer. Roedd anallu i ddarparu adnoddau priodol ar gyfer y mesurau hyn yn aml yn effeithio ar fynediad carcharorion at addysg, sgiliau neu waith. Mewn un sefydliad, roedd staff a oedd yn gyfrifol am hebrwng carcharorion RS yn cael eu hailddyrannu'n rheolaidd i'r prif adain pan nad oedd digon o staff yn y carchar, a oedd yn golygu na allai carcharorion RS gyrraedd y gwaith.

3.12 Mae'r pwynt pan fydd carcharor yn gadael y carchar, er enghraifft i fynd i'r llys neu i'r ysbyty, yn beryglus ac, o'r herwydd, mae angen mesurau ychwanegol i leihau'r risg o ddianc. Roedd un o'r mesurau a ddefnyddiwyd yn cynnwys y gofyniad i fenywod a phlant wisgo gwig gwyrdd a melyn neu las a melyn, yr un fath â dynion categori A, hyd yn oed pan nad oedd unrhyw wybodaeth am risg o ddianc. Nid oedd dyluniad y wisg yn addas i ferched ac roedd yn golygu bod yn rhaid gwanhau diogelwch mewn mannau cyhoeddus i hwyluso defnyddio'r toiled.




**Gwisg gwryw Categori A a ddefnyddir ar gyfer menywod a phlant (chwith) a'r wisg arall sy'n cael ei defnyddio mewn un carchar i fenywod**

3.13 Roedd tîm categori A yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn ddiweddar roedd wedi caniatáu i un fenyw wisgo ei dillad ei hun ar ymweliad â'r

ysbyty. Roedd hyn yn dangos, gydag asesiad wedi'i arwain gan risg, bod dull gweithredu unigol yn bosibl ac yn effeithiol o ran cynnal diogelwch a diogelu'r cyhoedd rhag niwed.

3.14 Roedd rhywfaint o drefniadau hebrwng ar gyfer plant hefyd yn ormodol, ac nid oedd y mesurau hyn yn seiliedig ar allu'r plentyn i ddianc. Roedd y nifer fach o sefydliadau a oedd yn dal plant RS yn golygu bod rhai plant yn teithio am hyd at chwe awr mewn cyffion a'r un wisg, gydag oddeutu pum aelod o staff mewn cerbyd diogel. Roedd effaith gyfun y mesurau diogelwch ychwanegol hyn yn golygu bod rhai plant yn teimlo eu bod wedi cael eu trin fel oedolyn:

> '... oherwydd y statws RS, pan ddeuthum yma yn 15 oed – roeddwn i'n dal i gael fy nhrin fel pe bawn i'n oedolyn – roedd cymaint o ddiogelwch. Maen nhw'n eich trin chi'n hŷn nag ydych chi mewn gwirionedd.'

3.15 Roedd y polisi RS hefyd yn rhoi cyfarwyddyd i staff ddefnyddio llyfr log i gofnodi ble mae plentyn neu garcharor bob amser, mesur arall nad yw'n berthnasol i garcharorion gwrywaidd â dedfryd safonol categori A. Byddai mwy o ddefnydd o gofnodion electronig a thechnoleg arall wedi arwain at fonitro mwy effeithiol.

## Mynediad cyfyngedig i ardaloedd penodol yn y sefydliad

3.16 Roedd llawer o ardaloedd y carchar y tu allan i ffiniau i garcharorion RS. Er enghraifft, nid oedd plant RS yn Feltham yn gallu defnyddio maes chwaraeon pêl-droed y tu allan. Disgrifiodd arweinwyr carchardai yn ystâd y plant y mesur hwn fel un gorgyfyngol a dywedodd wrthym eu bod wedi'u harfogi'n briodol i reoli a lliniaru risgiau'n lleol gydag archwiliadau monitro parhaus gan dîm categori A cenedlaethol os tybir bod angen.

3.17 Yn ystâd y merched, nid oedd carcharorion yn Low Newton yn gallu byw yn yr uned amgylchedd wedi'i chynllunio â gwybodaeth seicolegol (PIPE, gweler yr Eirfa) ac felly fe'u rhwystrwyd rhag defnyddio'r gwasanaeth hwn. Roedd angen i arweinwyr yn yr ystâd sefydliadau diogel uchel hirdymor, y gwasanaeth ieuenctid yn y ddalfa (YCS) ac ystâd y merched ymchwilio i sut i ddarparu mynediad at wasanaethau adsefydlu allweddol ar yr un pryd â lleihau'r risg o ddianc.

## Monitro cyfathrebu

3.18 Gall monitro cyfathrebu fod yn arf hanfodol i gasglu tystiolaeth o gynnydd mewn risgiau neu fygythiad parhaus i'r cyhoedd. Roedd trefniadau monitro galwadau ffôn a'r post wrthi'n cael eu hadolygu yn y safleoedd roeddem wedi ymweld â nhw oherwydd y polisi rheoli ac atal cyfathrebiadau awdurdodedig newydd (ACCI, gweler yr Eirfa) a oedd wedi dileu'r gofyniad i fonitro holl gyfathrebiadau RS ac wedi mabwysiadu model unigoledig a fu'n destun asesiad risg.

3.19 Ar ôl cyflwyno'r polisi newydd, dim ond yn dilyn asesiad risg yr oedd carchardai menywod yn monitro unigolion RS. Fodd bynnag, mewn un safle plant, roedd yr holl waith monitro wedi'i atal ac ni allem ddod o hyd i dystiolaeth y byddai'r penderfyniad hwn yn cael ei adolygu yn dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau, fel symud i'r ysbyty neu ymddangosiadau yn y llys.

# Section 4 Adran 4 Mynediad at wasanaethau a chymorth

## Bywyd bob dydd

4.1 Treuliwyd y 28 diwrnod cyntaf yn y ddalfa ar gyfer holl blant RS yn Wetherby mewn un uned, a oedd ar wahân i'r brif boblogaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, cwblhaodd y carchar gynllun rheoli asesiad lleol (LAMP) a oedd yn cynnwys archwiliadau ar gysylltiadau PIN ffôn a theulu neu ffrindiau a oedd eisiau ymweld â'r plentyn yn y carchar. Nid oedd yn glir pam roedd angen y cyfnod asesu hir hwn yn y rhan fwyaf o achosion, a gwelsom fod treulio bron i fis yn un uned yn cael effaith negyddol ar allu plant i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, yn gohirio eu mynediad at addysg ac hefyd yn effeithio ar eu lles.

4.2 Er bod carchardai'n ceisio hwyluso cyswllt teuluol cyn gynted â phosibl, roedd hyn yn aml yn dibynnu ar yr heddlu'n ymweld â'r gymuned dan y cynllun ymwelwyr cymeradwy (AVS – gweler yr eirfa) ac nid oedd cydnabyddiaeth o fudiadau plant eraill (fel y tîm troseddau ieuenctid neu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol i blant) a oedd eisoes wedi cymeradwyo cyswllt ag ymwelwyr; roedd hyn yn fwlch o ran rhannu gwybodaeth.

4.3 Yn ein cyfweliadau, dywedodd rhai plant wrthym fod eu bywyd a'u profiad bob dydd yn wahanol i'r rhai a oedd yn byw yn y prif unedau. Roedden nhw'n dweud bod ganddyn nhw lai o amser allan o'r gell, amgylchedd byw tlotach a llai o fynediad at gyfleoedd fel chwaraeon ac addysg. Roedd yr uned RS yn Wetherby yn hen, yn glawstroffobig ac yn gyfyng, gyda diffyg golau naturiol. Roedd y cawodydd cymunedol ar yr uned wedi'u cynnal a'u cadw'n wael ac wedi llwydo.



**Cell plentyn ar uned RS**




**Coridor uned RS**

4.4 Roedd celloedd RS mewn gwahanol unedau yn Feltham. Petai plentyn yn cael statws RS uwch (a ddyfernir am ymddygiad da o fewn cynllun cymhellion y Sefydliad Troseddwyr Ifanc), gallent fyw ar yr uned estynedig a oedd yn darparu amgylchedd gwell, gyda chawodydd yn y gell a mwy o gyfleoedd i gymysgu â'u cyfoedion.



**Amodau byw yn yr uned uwch yn Feltham**


4.5 Treuliodd y rhan fwyaf o blant RS gyfnodau hir dan glo yn eu celloedd. Roedd yr asesiad 28 diwrnod yn golygu bod mynediad plant at weithgareddau, cyswllt â chyfoedion a chyswllt ystyrlon â staff yn gyfyngedig iawn yn ystod y cyfnod hwn. Nid oedd hyn wedi gwella ar ôl i'r asesiad ddod i ben, gan fod y cyfyngiadau'n dal i effeithio ar amser allan o'r gell. Roedd rheolwyr yn ceisio darparu tua dwy awr y tu allan i'r gell yn ystod yr wythnos, ond roedd rhai plant yn ein sampl yn cael llawer llai.

4.6 Roedd un plentyn RS wedi bod yn y ddalfa am 49 diwrnod ac roedd ei weithgareddau cynlluniedig wedi'u cyfyngu i gawod, tua 30 munud o ymarfer corff ac weithiau addysg ar yr adain. Yn ystod y cyfnod hwn, dim ond dwywaith yr oedd wedi gadael yr uned RS ddynodedig ac ni chafodd amser allan o'r gell am unrhyw reswm ar saith diwrnod yn y mis blaenorol, a oedd yn gyfystyr â charchariad unigol (mwy na 22 awr dan glo mewn cell heb unrhyw ryngweithio ystyrlon â phobl).

4.7 Yn ystod ein cyfweliadau, dywedodd y plant eu bod yn cael trafferth gyda hyd yr amser dan glo mewn un uned. Roedd cofnodion ar y system wybodaeth yn y carchar (NOMIS) yn cefnogi hyn, gyda rhai gweithwyr proffesiynol yn dweud bod treulio cyfnodau hir o amser dan glo yn cael effaith negyddol ar les ac iechyd meddwl plant.

4.8 Roedd y profiad o ddydd i ddydd i garcharorion RS mewn sefydliadau menywod yn amrywio ar draws y tri charchar. Ar un safle, nid oedd carcharorion yn gallu mynd i'r gwaith oherwydd bod staff a oedd yn gorfod eu hebrwng yn cael eu hailddyrannu'n rheolaidd, felly cawsant eu cloi am gyfnodau hir yn ystod y dydd. Fodd bynnag, ar safle arall, roedd arweinwyr wedi cwblhau asesiad risg lleol a oedd yn caniatáu i un fenyw hŷn ddatgloi drws ei chell yn ystod y dydd, gan roi mynediad iddi at yr ardaloedd cymunedol yn yr uned. Yn yr un sefydliad, roedd amser allan o'r gell ar gyfer carcharorion RS yn ystod yr wythnos yn rhesymol ac nid oedd yn wahanol i garcharorion nad oeddent yn destun RS.

4.9 Roedd amodau byw carcharorion RS mewn sefydliadau menywod yn nodedig wahanol. Roedd manteision amlwg i'r trefniadau amgylchedd a staffio yn Uned Rivendell yng Ngharchar New Hall ac roedd carcharorion RS a oedd yn byw yno yn cael profiad cadarnhaol ar y cyfan. Roedd un carcharor wedi dangos gwelliant amlwg o ran cyflwyniad a dealltwriaeth o risg ac roedd un arall yn elwa o'r amgylchedd cadarnhaol a chysondeb staff sy'n gweithio ar yr uned. Roedd amodau byw yn Bronzefiled yn rhesymol hefyd. Roedd llawer o'r menywod yn byw ar un bloc tai a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer carcharorion tymor hir ac roedd ganddynt ystafell gymdeithasu, cawodydd a ffonau yn y celloedd.



**Cell Carcharor yn Bronzefield**



**Mannau cymunedol yn Bronzefield**

## Cyswllt â theulu

4.10 Roedd plant RS yn aml yn wynebu oedi wrth gysylltu â theulu a ffrindiau, a oedd yn hwy nag ar gyfer plant nad oeddent yn destun RS. Pan ofynnwyd iddo ddisgrifio cyswllt teuluol, cymharodd un plentyn RS ei brofiad â phlant nad oeddent yn destun RS, a dywedodd:

> '... anoddach... llawer anoddach.'

4.11 I blentyn arall, cymerodd tua chwe wythnos i ymwelydd gael ei gymeradwyo ar gyfer ymweliadau cymdeithasol, ac mewn achos gwahanol, dim ond ar ôl tua mis y derbyniodd plentyn luniau o frodyr a chwiorydd ac aelodau o'r teulu. Pan ofynnwyd am yr oedi hwn, dywedodd y plentyn:

> '... anfonodd fy mam lyfrau lliwio... a llun o fy mrawd a fy chwaer fach a chymerodd tua 3-4 wythnos i mi dderbyn y llun hwnnw.'

4.12 Roedd profiad ac argaeledd ymweliadau cymdeithasol hefyd yn wahanol i blant RS. Mae gan blant sydd ar remand hawl i ymweliadau cymdeithasol tair awr yr wythnos ac mae gan blant sy'n cael eu dedfrydu hawl i gael dwy awr o ymweliadau cymdeithasol bob mis. Fodd bynnag, yn Wetherby dim ond dau o blant RS a ganiateid yn y brif neuadd ymweliadau ar unrhyw adeg, a oedd yn lleihau eu mynediad yn sylweddol ac yn golygu na fyddai plant ar remand yn gallu cael eu hawl i dri ymweliad yr wythnos. Gwaethygwyd y diffyg cyswllt hwn â'r teulu ymhellach gan fod y rhan fwyaf o blant RS yn cael eu dal lawer ymhellach oddi cartref na'u cyfoedion. Yn ein sampl, ar gyfartaledd roedd plant RS yn cael eu cadw 142 milltir i ffwrdd ac roedd un plentyn 309 milltir o'i ardal enedigol. Roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd plant yn cael llawer o gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol, gan gynnwys timau troseddau ieuenctid a gweithwyr cymdeithasol, a oedd yn llai tebygol o ymweld â'r carchar.

4.13 Yn y sefydliadau i fenywod, roedd rhai carcharorion RS hefyd wedi profi oedi o ran gallu cysylltu â theulu a ffrindiau yn ystod y dyddiau cynnar yn y ddalfa oherwydd yr amser a gymerodd i'r heddlu eu harchwilio a'u cymeradwyo cyn dod i mewn i'r carchar (AVS). Roedd pellter o gartref hefyd yn broblem i rai mewn carchardai i fenywod ac roedd cyflwyno galwadau fideo yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Roedd New Hall wedi helpu i hwyluso cyswllt teuluol i ddwy fenyw RS; cynhaliwyd eu hymweliadau cymdeithasol yn yr uned i ffwrdd o'r brif neuadd ymweliadau. Roedd y trefniant hwn yn diogelu'r carcharorion hyn ac yn golygu y gellid cynnal ymweliadau cymdeithasol mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Heb y gweithdrefnau hyn, roedd yn annhebygol y byddai'r menywod wedi cael ymweliadau cymdeithasol.

## Addysg, sgiliau a gwaith

4.14 Gwelsom ei bod wedi cymryd dwywaith cymaint o amser i blant RS gael eu dyrannu i dderbyn addysg wrth gyrraedd y ddalfa, â'u cyfoedion. Achoswyd yr oedi hwn gan y cyfnod asesu 28 diwrnod. Nid oedd tri o bob naw plentyn yn ein sampl yn ymgysylltu ag addysg ac, mewn rhai achosion, hyd yn oed pan oedd addysg ar gael, nid oedd hyn yn benodol i'w hanghenion. Er enghraifft, roedd un plentyn yn gwylio fideos am ddewis coleg neu brentisiaeth pan oedd ganddo 16 mlynedd arall ar ôl ar ei dariff bywyd. Yn ein cyfweliadau, roedd y plant yn rhannu eu bod yn gwerthfawrogi addysg ac yn teimlo'n rhwystredig pan oedd yn cael ei ganslo, weithiau oherwydd diffyg staff i'w hebrwng i ddosbarthiadau.

4.15 Yn y sefydliadau i ferched, roedd 15 o'r carcharorion RS mewn addysg, sgiliau neu waith. Yn Bronzefield, roedd rhai merched yn gweithio ar yr adain ac roedd eraill yn cael eu cyflogi mewn swyddi eraill fel gweithwyr cymheiriaid yn y gampfa. Yn ein cyfweliadau, roedd carcharorion RS yn gadarnhaol am hyn, ac ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn yn peryglu diogelwch mewn unrhyw ffordd. Mewn un achos, roedd asesiad risg wedi caniatáu i un fenyw allu defnyddio offer i arddio tra'n cael ei goruchwylio gan staff. Roedd y penderfyniad hwn yn gymesur â risgiau'r unigolyn ac roedd wedi cael ei wneud ar y sail nad oedd unrhyw arwydd o fygythiadau na gwybodaeth am arfau yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd trefniant o'r fath yn enghraifft arall o sut y gallai asesiadau lleol ac unigol fod yn effeithiol o ran rheoli risg, gan ganiatáu i garcharorion RS gymryd rhan mewn trefn fwy adeiladol ac ystyrlon.

4.16 Nid oedd hyn yn wir am holl sefydliadau'r menywod, ac ar un safle roedd mynediad at waith oddi ar yr adain yn cael ei ganslo'n rheolaidd oherwydd nad oedd digon o staff i hwyluso symudiadau RS. Roedd hyn yn golygu bod rhai carcharorion yn setlo am waith ar yr adain fel glanhau neu olchi dillad, nad oedd yn gwneud fawr ddim i'w helpu i ddangos cynnydd pan adolygwyd eu statws RS.

## Perthynas gyda staff

4.17 Disgrifiodd plant RS berthynas gadarnhaol yn gyffredinol gyda staff a dywedodd fod y gefnogaeth reolaidd gan ymarferwyr ailsefydlu yn arbennig o ddefnyddiol. Gallai pob plentyn yn ein cyfweliadau nodi aelod o staff y gallent droi ato pe bai ganddynt broblem. Yn Wetherby, gwelsom dystiolaeth o gefnogaeth dda gan y tîm caplaniaeth a oedd wedi helpu dau o blant RS i barhau i ymarfer eu crefydd; roedd y gefnogaeth hon hefyd yn cynnwys eu teulu ar ôl i'r cyfnod asesu ddod i ben. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion RS mewn sefydliadau menywod yn disgrifio perthynas dda gyda'u rheolwr troseddwyr prawf (POM), yn enwedig yn Low Newton a New Hall.

4.18 Roedd y gefnogaeth a oedd ar gael i garcharorion RS mewn sefydliadau menywod gan weithwyr allweddol yn bwysig. Roedd gan bawb yn ein sampl weithiwr allweddol ac fe wnaethom asesu eu bod yn

darparu cefnogaeth a mewnbwn ystyrlon i garcharorion ym mhob achos ond dau. Yn New Hall, dywedon ni fod ‘sesiynau’n cael eu cynnal yn rheolaidd gyda’r un gweithiwr allweddol a enwir... mae tystiolaeth o ymddiriedaeth yn y berthynas honno a’r anogaeth honno.’ Yn ein cyfweliadau, roedd carcharorion yn arbennig o gadarnhaol am y model gwaith allweddol yn Bronzefield, lle’r oedd tîm ymroddedig o swyddogion a oedd yn gweithio yn yr adran ddiogelwch ac a oedd yn wybodus am y materion a oedd yn wynebu’r rheini a oedd yn destun RS, yn darparu’r sesiynau. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio pam fod y model hwn yn ddefnyddiol, dywedodd un fenyw:

‘... mae gennych rywun i droi ato... fel carcharor RS, mae gen ti bobl benodol y galli di droi atyn nhw i gael atebion i gwestiynau.’

## Gofal iechyd i garcharorion mewn sefydliadau menywod

4.19 Roedd gan y rhan fwyaf o fenywod fynediad at ofal iechyd a oedd yn cyfateb i’r brif boblogaeth. Cafodd menywod RS a gyrhaeddodd eu hasesu a’u rheoli’n agos, a rhoddwyd asesiadau pellach ar waith pan oedd eu hangen arnynt. Roedd ffocws priodol ar ferched RS a oedd â lefel uchel o anghenion gofal iechyd ac roedd gofal yn cael ei gynllunio a’i ddarparu i’w diwallu.

4.20 Nid oedd ein hadolygiad yn tynnu sylw at unrhyw wahaniaeth o ran cael gafael ar wasanaethau iechyd drwy’r llwybrau apwyntiad arferol ar gyfer carcharorion RS. Nid oedd gofal tymor hir a mynediad at iechyd a sgrinio penodol ar gyfer menywod bob amser yn cyd-fynd â’r safonau disgwyliedig, ond roedd yr un fath ag ar gyfer carcharorion eraill ar y safle hwnnw. Yn Bronzefield, nid oedd yn arferol i fenywod RS gael eu hebrwng gan swyddogion i ymgynghoriadau clinigol, a oedd yn golygu bod apwyntiadau’n gyfrinachol. Yn ein cyfweliadau, roedd carcharorion yn gadarnhaol ar y cyfan am gyfrinachedd yn ystod apwyntiadau ac ymgynghoriadau gofal iechyd.

4.21 Yn Bronzefield, roedd mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn brydlon, roedd gofal iechyd meddwl yn dda, ac roedd yn hafal i ofal carcharorion eraill. Roedd asesiadau iechyd meddwl yn amserol, ac roedd y menywod hynny y nodwyd bod angen asesiad, triniaeth ac ymyriad parhaus arnynt yn cael gofal a oedd yn briodol ac yn unol â chleifion eraill. Pan oedd iechyd meddwl menyw wedi dirywio neu pan ystyriwyd bod angen asesiad ar gyfer cael ei derbyn i ysbyty iechyd meddwl diogel, gwelsom fod atgyfeirio ac asesu wedi digwydd o fewn y canllawiau cenedlaethol, a oedd yn well nag ydym yn ei weld fel arfer.

4.22 Fodd bynnag, gallai’r amser aros i drosglwyddo i ysbyty iechyd meddwl arbenigol fod yn fwy problemus nag arfer o ystyried y cyfyngiadau a’r gofynion diogelwch ychwanegol, fel cael gafael ar drafnidiaeth ddiogel iawn. Daethom o hyd i un claf a oedd wedi aros 128 diwrnod am drosglwyddiad oherwydd ei RS a oedd o bosibl wedi gohirio eu hadferiad.

# Section 5 Adran 5 Lleihau risg a phontio

## Plant sy'n pontio i'r ystâd oedolion

5.1 Yn y safleoedd plant, gwelsom nad oedd yn glir i bedwar o bob naw plentyn beth yr oedd angen iddynt ei wneud i leihau lefel eu risg. Yn yr enghraifft waethaf, nid oedd asesiad Asset (gweler yr Eirfa) o'r plentyn i lywio'r cynllun dedfrydu, ac er gwaethaf targedau cynllunio dedfrydu neu remand yn yr enghreifftiau gorau, roeddent yn canolbwyntio'n bennaf ar les. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd dangos gostyngiad mewn risg cyn adolygu statws cyfyngedig. Yn yr ychydig achosion lle'r oedd tystiolaeth o waith lleihau risg, ni roddwyd cyfrif am hyn mewn adolygiad o statws RS nac fel rhan allweddol o'r broses gwneud penderfyniadau pan symudodd y plentyn i'r ystâd oedolion.

5.2 Hyd at rai newidiadau diweddar, bu diffyg proses bontio glir ers tro i blant RS symud i'r ystâd oedolion. Roedd hyn yn golygu nad oedd y rhan fwyaf wedi symud heb unrhyw wybodaeth flaenorol am eu sefydliad newydd, a heb ddim amser i baratoi. Nid oedd polisi lleoliadau safonol YCS i beidio â throsglwyddo plant ar neu o gwmpas eu pen-blwydd yn 18 oed neu adeg y Nadolig, gan gydnabod bod hwn yn gyfnod bregus i'r rhan fwyaf ohonynt, yn berthnasol i blant RS. Trosglwyddodd un plentyn o un Sefydliad Troseddwyr Ifanc i un arall ar Noswyl Nadolig, ac anfonwyd un arall i garchar yr ystâd oedolion ar eu pen-blwydd yn 18 oed. Disgrifiodd ymarferwyr ailsefydlu sy'n gweithio gyda phlant RS eu pryderon am y diffyg gwybodaeth y gallent ei rhannu â phlant am eu lleoliadau yn y dyfodol a'u rhwystredigaethau gyda'r system.

5.3 Mewn ymgais i fynd i'r afael â'r materion hyn, roedd Wetherby wedi ffurfio proses bontio newydd yn ddiweddar ochr yn ochr â'r lleoliadau YCS a thîm categori A a oedd yn canolbwyntio ar wella'r berthynas rhwng y carchar a dau garchar categori A penodol i oedolion (Manceinion a Belmarsh) y gellid trosglwyddo oedolion ifanc iddynt. Roedd hyn yn dechrau gwella'r wybodaeth a gafodd plant cyn iddynt symud ac roedd wedi galluogi oedolion ifanc i gael mynediad cyflymach at gysylltiadau ffôn PIN ac ymweliadau cymeradwy yn ystod eu dyddiau cynnar yn yr ystâd oedolion. Roedd rhai oedolion ifanc wedi cael cynnig galwad ffôn gyda staff y safle oedolion cyn iddynt gael eu trosglwyddo. Yn ystod ein cyfweliadau, soniodd un oedolyn ifanc am y gwahaniaeth yr oedd galwad ffôn gyda'r sefydliad newydd wedi'i wneud:

> ‘Rydw i’n teimlo’n llawer gwell nag oeddwn i cyn i mi siarad â rhywun [o safle’r carchar oedolion]... rydw i’n cofio pan ges i wybod fy mod i’n mynd yno ac nad oeddwn i wedi siarad â neb, roeddwn yn meddwl beth sy’n mynd i ddigwydd? Ond nawr rydw i’n gwybod o leiaf beth sy’n mynd i ddigwydd pan fydda i’n cyrraedd yno ar unwaith, ac wedyn gallaf setlo i mewn a symud ymlaen o hynny.’

5.4 Fodd bynnag, roedd problemau o hyd gyda’r broses hon; gallai’r ddau sefydliad oedolion fod gryn bellter oddi wrth ardaloedd cartref ac nid oeddent bob amser yn cynnig yr ymyriadau ymddygiad troseddol penodol yr oedd eu hangen.

5.5 Gwelsom hefyd nad oedd gwaith lleihau risg a wnaed mewn lleoliadau plant, a oedd yn cynnwys cyflawniadau addysgol, yn cael ei ystyried yn ddigon effeithiol wrth benderfynu a oedd angen RS, pan symudodd y plentyn i’r ystâd oedolion, neu pa fesurau diogelwch ychwanegol oedd eu hangen.

## Cynnydd mewn carchardai i fenywod

5.6 Roeddem yn bryderus mai dim ond 11 o’r 18 asesiad risg o niwed difrifol oedd yn gywir yn ein barn ni, a dim ond dwy ran o dair oedd yn nodi’n glir beth roedd angen i’r carcharor ei wneud i leihau ei risg. Roedd y diffyg eglurder ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei ddeall fel gwaith lleihau risg llwyddiannus i fenywod yn broblem fawr ac roedd diffyg cysylltiad rhwng yr hyn yr oedd carchardai menywod a’r tîm cenedlaethol categori A yn ei ystyried yn effeithiol. Yn wahanol i’r ystâd i ddynion lle’r oedd nifer o raglenni ymddygiad troseddol cydnabyddedig a chymeradwy, nid oedd tystiolaeth dda o’r hyn a oedd yn gweithio gyda menywod a phlant, ac nid oedd hyd yn oed cynlluniau lleol sy’n seiliedig ar seicoleg fel rhaglen EOS (gweler yr Eirfa) yn Bronzefield wedi cael ei gydnabod fel rhywbeth perthnasol tan yn ddiweddar iawn.

5.7 Roedd hyn yn wir am un carcharor yn ein sampl a oedd wedi cwblhau pedair blynedd ar uned arbenigol a oedd yn darparu triniaeth ddwys i unigolion risg uchel. Fodd bynnag, roedd eu statws cyfyngedig yn rhwystro eu cynnydd gan ei fod yn atal mynediad at y cam nesaf; nid oeddent yn gallu symud ymlaen i’r uned PIPE gan nad oedd yn bodloni’r gofynion diogelwch ffisegol ar gyfer carcharorion RS fel y pennir gan y tîm categori A. Er ei fod wedi cwblhau popeth y gofynnwyd amdano yn y carchar, ac argymhelliad i ddileu RS wedi’i gefnogi gan asesiad risg seicolegol a oedd yn dangos bod y risg wedi lleihau, gwrthodwyd hyn gan y panel cenedlaethol. Roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod yr adolygiadau’n cael eu hysbysu’n llawn gan arbenigwyr sy’n gweithio yn y meysydd hyn, fel y rhai o ystâd y merched a YCS, a’u bod yn rhan ffurfiol o aelodaeth y bwrdd adolygu.

5.8 Nid dyma’r unig enghraifft lle’r oedd statws cyfyngedig wedi llesteirio cynnydd. Roeddem hefyd yn ymwybodol o enghreifftiau blaenorol o fenywod RS yn trosglwyddo i sefydliad gwahanol i gael mynediad at

gymuned therapiwtig fel rhan o waith lleihau risg, ond ar ôl hynny, nid oeddent yn gallu byw yn yr uned oherwydd eu statws RS. Roedd hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo'n ddryslyd ac yn anobeithiol, ac roedden nhw mewn cylch o anobaith. Gyda diffyg targedau realistig a chyraeddadwy, nid oedd rhai carcharorion RS yn gwybod beth fwy allent ei wneud gyda'u cyfnod yn y ddalfa, ac roedd llawer yn ansicr ynghylch beth i'w wneud nesaf. Dywedodd un carcharor:

'Rydw i wedi cael fy adegau, fel pob carcharor, ac mae rhai ohonynt yn cael adegau gwaeth na fi. Ac rydw i wedi gwneud cymaint o ymdrech, rydw i'n ymddwyn yn dda, rydw i'n gwneud yr hyn y gofynnir i mi. Dwi'n gwrtais, dwi'n fanesol. Ac nid yw'n ddigon. Ac rydw i'n teimlo fel rhoi'r ffidil yn y to... rydw i'n ceisio bod yn gwrtais ac yn barchus, ond dydw i ddim yn mynd unman.'

Dywedodd un arall hefyd:

'...rydyn ni'n cael gwybod nad oes digon o dystiolaeth i ddod oddi ar RS ond doedd dim gwybodaeth am beth fyddai'n ddigon?'

# Section 6 Adran 6 Adolygiadau o statws cyfyngedig

6.1 Dylai pob plentyn neu fenyw a gadarnheir yn RS gael adolygiad o'u categori diogelwch ddwy flynedd ar ôl dedfrydu, ac wedyn yn flynyddol. Ar gyfer pob adolygiad, dylai panel asesu lleol (LAP) yn y carchar gyflwyno adroddiad gydag argymhelliad ynghylch a yw'r dystiolaeth sydd ganddynt am y plentyn neu'r carcharor yn cefnogi parhad RS carcharor neu ei ddiddymu. Os bydd LAP yn argymell diddymu RS, rhaid i gadeirydd y panel cenedlaethol gymeradwyo hyn.

6.2 Roedd dau blentyn RS yn ein sampl a oedd yn gymwys i gael adolygiadau o'u statws RS. Yn un o'r achosion, nid oedd y dogfennau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad o ansawdd digon da ac nid oeddent yn cynnwys digon o wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Yn hytrach, darparodd y carchar y dogfennau craidd y gofynnwyd amdanynt gan y tîm categori A, fel trawsgrifiadau llys. Nid oedd unrhyw wybodaeth gan yr ymarferydd ailsefydlu, yr adran addysg na'r YOT a oedd yn gweithio gyda'r plentyn. Derbyniodd y plant ganlyniad yr adolygiad drwy lythyr a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am y rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad, ac eithrio cyfeiriad at y prif drosedd.

6.3 Roedd rhai carcharorion a oedd yn cael eu cadw mewn sefydliadau menywod wedi treulio blynyddoedd lawer yn destun RS. Gwelsom nad oedd adolygiadau lleol o'u statws RS bob amser yn digwydd yn flynyddol. Roedd pob carcharor RS yn ein sampl a ddylai fod wedi cael adolygiad lleol blynyddol wedi gweld bylchau o fwy na 12 mis rhwng pob un (ar wahân i adolygiad ar ôl dedfrydu am ddwy flynedd) ac o'r adolygiadau diweddaraf a gynhaliwyd, dim ond traean oedd yn cael eu cynnal mewn pryd. Roedd hyn yn golygu bod y broses adolygu genedlaethol wedi cael ei gohirio hefyd.

6.4 Pan ddigwyddodd LAP, roedd amrywiaeth o weithwyr proffesiynol yn bresennol ynddynt fel arfer. Er enghraifft, roedd adolygiadau yn Bronzefield yn amlddisgyblaethol, wedi'u cadeirio gan y dirprwy gyfarwyddwr ac yn cael eu mynychu gan y pennaeth diogelwch, POM, gweithiwr allweddol ac aelod o'r gwasanaeth seicoleg ystadau menywod (WEPS). Roedd yr arolygwyr o'r farn bod y cyfraniadau a wnaed i'r adolygiadau yn y tri safle yn ystyrlon ar y cyfan ym mhob achos ond dau. Fodd bynnag, ychydig iawn (chwe o blith 15) o garcharorion a gymerodd ran yn eu hadolygiad. Mewn un safle, dywedodd carcharorion RS na chawsant fawr o wybodaeth na mewnbwn am eu hadolygiadau, a dywedodd y rheini yn New Hall a Bronzefield eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf, gyda thîm gwaith allweddol RS yn benodol yn rhoi pwynt cyswllt defnyddiol i garcharorion.

6.5 Nid oedd adolygiadau RS yn seiliedig ar asesiadau cyfredol o risg ac angen (OASys) ac mewn un enghraifft, roedd adolygiadau lleol a chenedlaethol o RS wedi'u seilio ar asesiad a oedd dros dair oed.

6.6 Ychydig iawn o garcharorion mewn sefydliadau menywod oedd wedi cael eu hisraddio o RS, hyd yn oed pan nad oedd unrhyw wybodaeth am eu potensial i ddianc. Yn ystod y tair blynedd cyn ein harolygiad, penderfynwyd bod tair menyw yn addas i gael diddymu eu RS. Roedd cyfarfodydd y panel cenedlaethol a fynychwyd gennym wedi'u trefnu'n dda, ond nid oedd aelodaeth y bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr ffurfiol o'r gwasanaeth ieuenctid yn y ddalfa (YCS) ar gyfer y gyfarwyddiaeth plant neu fenywod. Byddai eu gwybodaeth arbenigol wedi helpu wrth ystyried y gwahanol risgiau ac anghenion.

6.7 Yn olaf, nid oedd model camu i lawr nac ailintegreiddio graddol fel rhan o'r broses o ddiddymu RS i annog cynnydd a phrofi ymddygiad y carcharor. Roedd hyn yn golygu nad oedd gan rai carcharorion y diddymwyd eu RS yn agos iawn at eu dyddiad rhyddhau neu'r dyddiad y daethant yn gymwys ar gyfer parôl, ddigon o gyfleoedd i ddangos eu hymddygiad neu gael eu monitro o dan amodau llai cyfyngedig.

# Atodiad I  Methodoleg thematig

Fe wnaethom gyfweld y naw o blant RS a siarad â 21 o garcharorion a oedd yn cael eu cadw mewn sefydliadau menywod (18 yn RS ac roedd y tair arall wedi cael gwared ar statws RS yn ddiweddar). Gofynnwyd cwestiynau am brofiadau'r plentyn neu'r carcharor o statws cyfyngedig. Roeddem hefyd wedi adolygu dogfennau ac asesiadau ac wedi siarad â gweithwyr achos, ymarferwyr adsefydlu, rheolwyr troseddwyr y gwasanaeth prawf a'r carchar, yn ogystal ag arweinwyr yn yr adrannau diogelwch, seicoleg a rheoli troseddwyr. Yn y carchar menywod mwyaf, cwblhaodd arolygwyr gofal iechyd adolygiad manwl hefyd o fynediad carcharorion â statws cyfyngedig at wasanaethau gofal iechyd.

Yn ein sampl o blant, roedd saith o'r naw ar remand ac roedd dau wedi eu dedfrydu. Roedd yr amser a dreuliwyd dan RS i blant yn amrywio o tua mis i bron i ddwy flynedd adeg ein hadolygiad. O'r rheini a oedd yn cael eu cadw mewn sefydliadau menywod, roedd tri ar remand a 15 wedi eu dedfrydu. Roedd yr amser roedd y carcharorion hyn wedi'i dreulio dan RS yn amrywio o tua mis i 27 mlynedd.

# Atodiad II  Geirfa

**Asset neu AssetPlus**
Fframwaith asesu a chynllunio o'r dechrau i'r diwedd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB). Ei nod yw darparu un cofnod ar gyfer pob plentyn sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid, boed hynny yn y gymuned neu yn y ddalfa.

**Rheoli ac Ymyrryd â Cyfathrebiadau Awdurdodedig (ACCI) 2022**
Y rheolau a'r canllawiau diweddaraf i staff carchardai reoli rheolaethau ac ymyriadau â cyfathrebiadau ar draws carchardai a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc.

**Cynllun ymwelwyr cymeradwy (AVS)**
Rhaid i ymwelwyr â charcharorion Categori A gael eu harchwilio gan yr heddlu a'u cymeradwyo cyn mynd ar dir y carchar, sy'n golygu ei bod yn debygol y bydd oedi gyda'u hymweliad.

**Rhaglen EOS**
Gwasanaeth Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr (OPD) yng ngharchar Bronzefield sy'n gweithio gyda menywod risg uchel, sydd wedi bod yn 'sownd' o ran dilyniant dedfrydau. Mae'n gweithio'n agos gyda'r staff a'r carcharorion i hwyluso gofal cyson ac i archwilio nodau sy'n gweithio tuag at gynnydd.

**Adnabod, Categoreiddio Cychwynnol a Rheoli Potensial a Charcharorion Categori A Dros Dro / Statws Cyfyngedig PSI 09/2015**
Gweler:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1105418/psi-09-2015.pdf

**Categorïau diogelwch carchardai**
Mae carchardai i ddynion wedi'u trefnu'n bedwar categori (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2022):

- Categori A
  Mae'r rhain yn garchardai diogelwch uchel sy'n cael eu goruchwylio gan yr Ystâd Ddiogel Uchel Hirdymor (LTHSE). Maent yn gartref i garcharorion gwrywaidd fyddai, pe baent yn dianc, yn peri'r bygythiad mwyaf i'r cyhoedd, i'r heddlu neu i ddiogelwch cenedlaethol.

- Categori B
  Mae'r carchardai hyn naill ai'n garchardai lleol neu'n garchardai hyfforddi. Mae carchardai lleol yn gartref i garcharorion sy'n cael eu cludo'n uniongyrchol o'r llys yn yr ardal leol (wedi'u dedfrydu neu ar remand), ac mae carchardai hyfforddi yn dal carcharorion tymor hir a diogelwch uchel.

- Categori C
  Mae'r carchardai hyn yn garchardai hyfforddi ac ailsefydlu; mae'r rhan fwyaf o garcharorion wedi'u lleoli mewn categori C. Maen nhw'n rhoi cyfle i

garcharorion ddatblygu eu sgiliau eu hunain er mwyn iddynt allu dod o hyd i waith ac ymsefydlu yn y gymuned ar ôl cael eu rhyddhau.

- Categori D - carchardai agored
  Ychydig iawn o ddiogelwch sydd gan y carchardai hyn ac maent yn caniatáu i garcharorion cymwys dreulio'r rhan fwyaf o'u diwrnod i ffwrdd o'r carchar ar drwydded i wneud gwaith, addysg neu at ddibenion adsefydlu eraill. Dim ond carcharorion sydd wedi cael asesiad risg ac sy'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer amodau agored y mae carchardai agored yn eu lletya.

Amgylchedd wedi'i Chynllunio â Gwybodaeth Seicolegol (PIPE)
Mae PIPE yn un ymyriad a gynigir fel rhan o'r llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr mewn carchardai ac mewn Adeiladau Prawf Cymeradwy yn y gymuned. Maent wedi'u cynllunio i gefnogi'r broses o drosglwyddo a symud carcharorion a phobl sydd ar brawf ar gamau arwyddocaol yn eu dedfryd a thu hwnt. Mae staff sy'n gweithio mewn PIPE yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar seicoleg.

**Carchariad unigol**
Dros 22 awr dan glo mewn cell heb unrhyw ryngweithio ystyrlon â phobl.

# Atodiad III  Troseddau statws cyfyngedig

Pan fydd carcharor yn cael ei dderbyn i'r ddalfa sydd wedi'i gyhuddo o un o'r troseddau isod, rhaid i staff y carchar gysylltu â'r swyddog heddlu sy'n gyfrifol am yr achos a fydd yn darparu crynodeb o'r achos. Defnyddir y wybodaeth hon wedyn i riportio'r achos i dîm canolog categori A a fydd yn penderfynu a yw'r fenyw neu'r plentyn i dderbyn statws cyfyngedig.

| Offence Type | Offences | Indicative of consideration for Category A |
|---|---|---|
| **Violence** | • Murder<br>• Attempted Murder<br>• Manslaughter<br>• Rape<br>• Attempted Rape<br>• Sexual Assault<br>• Robbery (firearm)<br>• Wounding with intent<br>• Kidnapping | • Victim unknown<br>• Random/unprovoked attack<br>• Extreme/sadistic/ frenzied violence<br>• Life threatening violence / injuries<br>• Firearm discharged in a public place<br>• Carried out for financial gain<br>• Serial/repeat offences<br>• Escalation in offending behaviour |
| **Sexual Offences** | • Rape<br>• Attempted Rape<br>• Buggery<br>• Sexual Assault | • Victim unknown<br>• Random/unprovoked attack<br>• Extreme/sadistic/ ritualistic violence<br>• Life threatening injuries<br>• Weapons used<br>• Repeat/serial offences<br>• Previous sexual offending<br>• Escalation in offending behaviour |
| **Robbery and Offences** | • Robbery<br>• Conspiracy to rob with firearms<br>• Possession of a firearm<br>• Possession of ammunition | • Firearms present or found subsequently<br>• Firearm discharged in public place<br>• Firearm discharged at person(s)<br>• Significant amount of money stolen<br>• Significant standing in an Organised Crime Group<br>• Professional armed robbery<br>• Serial/repeat offences<br>• Escalation in offending behaviour |
| **Importation of Class A Drugs (including conspiracy)** | • Importation of class A drugs<br>• Conspiracy to import class A drugs<br>• Possession of drugs with intent to supply | • Drugs valued in excess of £10M<br>• Conspiracy to import drugs in excess of £10M<br>• Firearms used/present<br>• Significant standing in an Organised Crime Group<br>• Repeat Offences |
| **Possession WI to Supply Explosives** | *MUST BE REPORTED IN* | *MUST BE REPORTED IN* |
| **Offences Connected with Terrorism** | *MUST BE REPORTED IN* | *MUST BE REPORTED IN* |
| **Offences Under the Official Secrets Act** | *MUST BE REPORTED IN* | *MUST BE REPORTED IN* |

Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
HM Inspectorate of Prisons
3rd floor
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
England

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EM oni nodir yn wahanol.